# Gwybodaeth i Fyfyrwyr Addysg Uwch (AU):

# Astudio Addysg Uwch yng Ngrŵp Llandrillo Menai (GLlM)

2024-25

# Tabl o'r Cynnwys


Tabl o'r Cynnwys ........ 2

1. Cyflwyniad ........ 3

  1.1 Manylion Personol ........ 4

  1.2 Cyfrif e-bost myfyriwr a sut i'w anfon ymlaen i gyfrif e-bost personol ........ 4

2. Y Flwyddyn Golegol ........ 5

3. Egluro Terminoleg ........ 6

4 Ymgysylltiad Myfyrwyr a Chynrychiolwyr y Myfyrwyr ........ 10

5. Rheolaeth Cyrsiau ........ 10

  5.1 Cyflwyniad ........ 10

  5.2 Tiwtorialau Personol a Phennu Targedau Personol ........ 11

  5.3 Tiwtorialau ........ 11

6. Eich Cyfrifoldeb i Gynhyrchu Gwaith Gwreiddiol ........ 12

  6.1 Ymarfer Annheg ........ 12

  6.2 Llên-ladrad ........ 12

  6.3 Turnitin ........ 14

  6.4 Deallusrwydd Artiffisial ........ 14

7 Atal Trafferthion ........ 14

  7.1 Rheoli Baich Gwaith a Materion Cysylltiedig ........ 16

  7.2 Amgylchiadau Lliniarol ........ 16

8 Llyfrau a Chylchgronau ........ 17

9 Cyfleusterau Cefnogi ........ 17

10 Gweithdai Sgiliau Academaidd a Sgiliau Astudio ar Moodle ........ 18

11 Myfyrwyr ag Anableddau neu Anghenion Dysgu Ychwanegol ........ 18

12 Cynllun Datblygu Personol ........ 19

13 Gwasanaeth Gyrfaoedd ........ 19

  13.1 Dyfodol Myfyrwyr ........ 19

  13.2 CamVA ........ 20

  13.3 Mentergarwch ........ 20

14 Cyfrifoldebau Ffioedd ........ 20

  14.1 Ad-daliadau/Newidiadau i Ffioedd oherwydd Penderfyniad i Adael ........ 21

  14.2 Ffioedd Dyledus ........ 21

  14.3 Bwrsariaethau ........ 21

15. Dwyieithrwydd ........ 22

16 Y Coleg Cymraeg Cenedlaethol ........ 23

17. Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant ........ 23

## 1. Cyflwyniad

Croeso, neu i lawer ohonoch, croeso’n ôl!

Pwrpas y llyfryn hwn yw rhoi gwybodaeth gyffredinol i chi am Addysg Uwch (AU) yng Ngrŵp Llandrillo Menai (GLlM) sy'n ategu'r wybodaeth yn y Siarter i Fyfyrwyr Addysg Uwch a llawlyfr ar-lein eich rhaglen. Bydd arweinydd eich rhaglen yn rhoi mynediad ar-lein i chi i'r llyfryn gwybodaeth hwn, y Siarter i Fyfyrwyr AU a llawlyfr eich rhaglen. Bydd llawlyfr eich rhaglen yn rhoi gwybodaeth fanylach i chi am eich cwrs, modiwlau/unedau'r pwnc, amserlenni, manylion asesu, rheolau a rheoliadau partneriaid dyfarnu ac ati. Bydd hyn ar ffurf tudalen Amgylchedd Dysgu Rhithiol ar-lein i’w gyrchu’n hawdd ar-lein, gyda dolenni i'r polisïau sy'n berthnasol i'ch rhaglen. Mae yna lawer o wybodaeth i fyfyrwyr newydd fynd i’r afael â hi ac fe all gymryd ychydig wythnosau i ymgyfarwyddo â’r derminoleg newydd.

Mae'n bwysig eich bod yn darllen y wybodaeth a geir yn eich Siarter i Fyfyrwyr AU a llawlyfr eich rhaglen ar dudalen rhaglen ein amgylchedd dysgu rhithiol (Moodle) gan eu bod yn cyfeirio at y rheolau a'r rheoliadau sy'n ymwneud â hawliau a chyfrifoldebau, dulliau asesu, ymddygiad, apeliadau academaidd a chanllawiau eraill i fyfyrwyr sy'n berthnasol i sefydliad partner eich rhaglen AU. Cofiwch bod y rheolau, y rheoliadau a'r polisïau sy'n ymwneud â'ch rhaglen yn cael eu diweddaru'n rheolaidd; o ganlyniad mae'n hanfodol eich bod yn eu gwirio drwy gydol y flwyddyn academaidd. Caiff gwybodaeth fwy cyffredinol sy'n ymwneud â Grŵp Llandrillo Menai (GLlM) ei chyhoeddi ar wefan y Grŵp.

Mae gwybodaeth bellach yn ymwneud â chyllid a materion personol eraill i’w chael ar y wefan, ar Borth y Dysgwyr (eDRAC y Dysgwr) a cheir gwybodaeth hefyd gan y Gwasanaethau i Ddysgwyr a leolir ar bob campws.

Fel myfyriwr addysg uwch, mae disgwyl i chi osod esiampl yn eich coleg. Mae'n bwysig eich bod yn ymgysylltu'n llawn â'r coleg drwy gymryd rhan yng ngweithgareddau undeb y myfyrwyr, fforymau llais y dysgwyr, e.e. drwy bleidleisio am gynrychiolydd myfyriwr i'ch dosbarth, cymryd rhan yng nghyfarfodydd tîm eich rhaglen ac ymddiddori mewn gweithgareddau allgyrsiol a all fod o fudd i'ch dysgu a'ch cyfleoedd yn y dyfodol. Mae hyn, ar y cyd â gwisgo'ch cerdyn adnabod AU, yn cyfrannu at greu diwylliant a chymuned myfyrwyr AU.

Mae astudiaethau AU yn heriol am fod angen bod yn drylwyr a bod y disgwyliadau’n uchel. Ond dylent hefyd fod yn ddiddorol ac yn gyffrous gan roi cyfle i chi feithrin sgiliau amrywiol a fydd yn ddefnyddiol i chi yn y dyfodol. Ein nod yw ymdrin â myfyrwyr AU fel partneriaid cyfartal yn y broses ddysgu.

Mae staff GLlM yma i’ch helpu i gyflawni eich cymhwyster; byddwn yn ymfalchïo yn eich llwyddiant. Mae maint y dosbarthiadau’n llai na’r rhai ar gampws prifysgol ac maent yn anffurfiol ac yn gyfeillgar. Cewch Diwtor Personol a byddwch yn cyfarfod ag ef neu hi yn aml ac yn rheolaidd. Yn GLlM mae pob myfyriwr yn bwysig; oherwydd hyn rydym yn falch o ganlyniadau rhagorol y myfyrwyr AU sydd wedi astudio yma o’ch blaen chi.

Pan arolygwyd darpariaeth AU GLlM gan yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd ar gyfer Addysg Uwch ym mis Mawrth 2016 roedd yr adborth yn arbennig o galonogol gan gadarnhau’r ffaith bod y safonau

academaidd a'r profiadau dysgu a gynigir i fyfyrwyr o'r ansawdd uchaf.

Mae'n bwysig iawn eich bod yn cadw cyswllt agos â'ch Tiwtor Personol a'ch Tiwtoriaid Moodle, yn enwedig os byddwch yn teimlo'ch bod yn cael anawsterau. Mae gan GLlM Bolisi Presenoldeb Myfyrwyr ac mae'n bwysig eich bod yn gyfarwydd â hwn. Rydym yn gwybod bod presenoldeb da yn arwain yn ddieithriad at lwyddiant academaidd. Gadewch i ni felly fod yn dîm a gweithio gyda'n gilydd i gyflawni eich gwir botensial.

Rydym am eich annog i ymroi nid yn unig i gwblhau eich cwrs, ond i gyfrannu'n llawn i'ch datblygiad personol. Wrth i chi wneud ffrindiau newydd a datblygu syniadau newydd byddwch chi eich hun yn newid, ac rydym yn mawr obeithio y bydd y profiad hwn yn un pleserus a chyffrous i chi.

## 1.1 Manylion Personol

**Noder:** Os ydych yn newid unrhyw fanylion personol, e.e. eich enw neu'ch cyfeiriad, eich cyfrifoldeb chi yw sicrhau eich bod yn rhoi gwybod i'ch tiwtor (fydd yn gofyn i chi gwblhau ac arwyddo'r ffurflen briodol). Os na wnewch chi hyn ni fydd yr enw ar eich cymhwyster yn gywir. Efallai y bydd yn ofynnol i chi gyflwyno tystiolaeth o'r newid (e.e. tystysgrif briodas neu weithred newid enw).


Dilynwch yr un drefn os byddwch yn newid cyfeiriad rhag ofn i'ch cymhwyster gael ei anfon i'r cyfeiriad anghywir.

## 1.2 Cyfrif e-bost myfyriwr a sut i'w anfon ymlaen i gyfrif e-bost personol


Fel myfyriwr yn GLlM byddwch yn cael cyfrif a chyfeiriad e-bost myfyriwr. Anfonir gwybodaeth bwysig am eich cwrs a'ch coleg i'r cyfeiriad hwn drwy gydol y flwyddyn. Cadwch olwg ar y cyfrif hwn yn rheolaidd.

Pe baech yn dymuno anfon y wybodaeth i gyfrif personol bydd angen i chi ddilyn y cyfarwyddiadau a ganlyn:

1. Mewngofnodwch i'ch cyfrif Myfyriwr neu Gmail.
2. Cliciwch ar yr eicon 'Settings' yng nghornel dde uchaf y sgrin a dewiswch 'settings' (efallai y bydd angen i chi glicio ar 'See all settings')



3. Dewiswch y tab 'Forwarding and POP/IMAP' (ar frig y dudalen) a chliciwch 'Add a forwarding address'
4. Nodwch y cyfrif e-bost yr hoffech i'r wybodaeth ei gyrraedd a phwyswch 'next', 'proceed', ac 'ok' i anfon e-bost yn cadarnhau hyn i'r cyfrif arall.




5. Ewch i'r cyfrif arall i agor yr e-bost yn cadarnhau'r cais a chliciwch ar y ddolen yn yr e-bost. Yna cewch eich tywys i dudalen yn cadarnhau bod popeth wedi'i wneud yn llwyddiannus.
6. Ewch yn ôl i'r cyfrif Gmail/Myfyriwr ac yn ôl i'r dudalen 'settings'. Cliciwch 'verify'.
7. Dewiswch 'Forward a copy of incoming mail to ... (eich cyfrif e-bost personol)' a'r opsiwn 'Keep Grŵp Llandrillo Menai's copy in the inbox', cliciwch 'save changes' ac mae popeth wedi'i wneud. Pan fyddwch yn derbyn e-bost yn eich cyfrif myfyriwr/Gmail bydd copi yn cael ei anfon i'ch cyfrif personol.

## 2. Y Flwyddyn Golegol

Mae'r flwyddyn golegol yn fyrrach i fyfyrwyr AU (30 wythnos); **gwnewch yn siŵr** bod arweinydd eich rhaglen yn **cadarnhau'r union ddyddiadau** ar gyfer dechrau a gorffen y cwrs. Bydd hefyd yn rhoi dyddiadau wythnosau adolygu, amserlenni asesu ac wythnosau arholiad i chi pan fo hynny'n berthnasol. Mae'n bwysig nad ydych yn bwriadu bod yn absennol yn ystod y tymor nac yn ystod y cyfnod arholiadau.

Cewch ragor o fanylion ar y wefan.

## 3. Egluro Terminoleg

Os ydych yn fyfyriwr newydd, byddwch yn clywed terminoleg newydd, yn ymgyfarwyddo ag amgylchedd newydd ac yn dechrau cael profiad o ddulliau dysgu newydd yn ystod eich dyddiau cyntaf yn y Coleg.

Caiff eich cwrs ei rannu'n fodiwlau (neu'n unedau) craidd, gorfodol a modiwlau nad ydynt yn rhai craidd. Am bob modiwl (neu uned) a gwblheir yn llwyddiannus fe roddir **graddfa gredyd** ar lefel ddynodedig sy'n cyfrif tuag at eich dyfarniad terfynol. Bydd eich Llawlyfr Rhaglen i Fyfyrwyr/ Amgylchedd Dysgu Rhithwir yn rhoi manylion eich modiwlau (neu unedau) a'r raddfa gredyd a roddir am bob un. Fel arfer mae myfyrwyr yn cwblhau modiwlau 10 neu 20 credyd y modiwl (neu'r uned) mewn cwrs gradd ac mae strwythur pob blwyddyn yn cynnwys 120 credyd.

Cynhelir rhai cyrsiau AU yn gydredol drwy'r flwyddyn academaidd gyfan gyda phob modiwl yn dechrau ac yn gorffen gyda'i gilydd. Fodd bynnag, mae mwyafrif y cyrsiau'n gweithredu drwy rannu'r flwyddyn academaidd yn **semestrau** (h.y. hanner blwyddyn academaidd o 15 wythnos yr un) gyda rhai modiwlau'n dechrau ac yn gorffen yn y semester cyntaf a gweddill y modiwlau'n dechrau ac yn gorffen yn yr ail semester. Weithiau bydd rhai rhaglenni'n cynnig modiwlau'r tu allan i semestrau arferol. Bydd eich Amgylchedd Dysgu Rhithwir a'ch amserlen yn rhoi rhagor o fanylion i chi am hyn.

Nid yw modiwlau a semestrau'n effeithio ar wyliau Nadolig, gwyliau Pasg na gwyliau hanner tymor ond **sylwch** fod dyddiadau dechrau a diwedd tymhorau'n gallu bod yn wahanol i fyfyrwyr AU a myfyrwyr Addysg Bellach GLlM ac yn gallu bod yn wahanol hefyd i rai sefydliadau partner GLlM.

**Cynllun, Cwrs, Dyfarniad a Rhaglen**
Yr un ystyr mwy neu lai sydd i'r termau *Cwrs* a *Rhaglen*; ac felly hefyd y termau **Dyfarniad** a **Chymhwyster**. Fodd bynnag, mae i'r termau ystyron neilltuol yn rheoliadau'r Sefydliadau Partner Addysg Uwch. Caiff hyn ei egluro wrthych gan eich Arweinydd Rhaglen, ac mae'r manylion ar gael ar dudalen Polisïau AU gwefan GLlM.

Yng Ngrŵp Llandrillo Menai, gallwch astudio am:

- Raddau Anrhydedd (L4 - L6, 360 Credyd)
- Graddau Cyffredin (L4 - L6, 300 Credyd)
- Graddau Sylfaen (L4 - L4, 240 Credyd)
- Diplomâu Cenedlaethol Uwch (HND) (L4 - L5, 240 Credyd)
- Tystysgrifau Cenedlaethol Uwch (HNC) (L4, 120 Credyd)
- Tystysgrif mewn Addysg Uwch (L4, 120 Credyd)

**Egluro Strategaethau Dysgu ac Addysgu: Darlithoedd, seminarau, tiwtorialau, gweithdai**

**Darlithoedd** yw sesiynau addysgu lle bydd tiwtor y modiwl fel arfer yn cyflwyno llawer o wybodaeth i chi am y pwnc. Yn aml, ceir amser i ryngweithio a'r prif nod yw i chi wrando'n astud, cymryd rhan mewn trafodaethau a gweithgareddau dosbarth a gwneud nodiadau trylwyr am y prif gysyniadau er mwyn amsugno'r wybodaeth newydd. Yn aml mae angen darllen ychwanegol cyn ac ar ôl y sesiynau a cheir rhestr o'r llyfryddiaeth allweddol ym mhob manyleb. Gall rhai darlithoedd gael eu rhoi i grŵp mawr o fyfyrwyr sy'n astudio modiwl sy'n rhan o amrywiaeth o gymwysterau.

Gall **Gweithdai** gael eu trefnu i chi gael defnyddio ystafelloedd neu offer arbenigol fydd yn eich galluogi i feithrin ac ymarfer y sgiliau ymarferol sy'n gysylltiedig â'ch rhaglen.

Yn aml, defnyddir **seminarau a thiwtorialau pwnc** i gadarnhau'r wybodaeth a gyflwynwyd mewn darlithoedd. Cewch gyfle i archwilio'r pwnc ymhellach ar ffurf sesiynau holi ac ateb gyda'r tiwtor, mewn grwpiau gwaith bychan a thrwy ddefnyddio astudiaethau achos ac ati. Profwyd bod cyfranogi gweithredol mewn dysgu'n cynyddu'ch dealltwriaeth o bwnc; mae hefyd yn fwy diddorol na chronni gwybodaeth drwy ddarlithoedd a darllen yn unig. Mae darlithoedd a seminarau'n cael eu cyfuno yn GLlM, gan gefnogi grwpiau bychan gyda chydbwysedd o wybodaeth am y pwnc ac ymarferion atgyfnerthu'r hyn a ddysgwyd gyda'r tiwtor.

Mae **Dysgu myfyriwr ganolog** a **Dysgu annibynnol** yn dermau cyffredinol a ddefnyddir i wahaniaethu rhwng amser cyswllt myfyrwyr â thiwtoriaid drwy'r dulliau a restrir uchod ac ymdrechion unigol myfyrwyr y tu allan i'r amgylchedd dysgu strwythuredig. Mae'n cynnwys gwaith myfyrwyr yn ymchwilio ac yn cywain gwybodaeth ar eu pen eu hunain. Dangosir yr amser y disgwylir i fyfyriwr ei dreulio'n gwneud y gwaith hwn ac yn cwblhau aseiniadau, prosiectau neu gyflwyniadau, yn nisgrifydd pob modiwl, dan y teitl 'Strategaeth Ddysgu ac Addysgu'. Disgwylir y bydd yr amser hwn yn rhoi syniad i'r myfyriwr faint o ymdrech sy'n ofynnol ganddo. Ni chyfyngir myfyrwyr i'r amser a nodir, a bydd y myfyrwyr mwyaf abl yn treulio mwy o amser na hyn yn dysgu ar eu liwt eu hunain. Disgwylir i fyfyrwyr ysgwyddo mwy o gyfrifoldeb am eu dysgu eu hunain wrth i'r rhaglen fynd rhagddi.

Yn aml, defnyddir **Trafodaethau Beirniadol mewn Grŵp** mewn pynciau creadigol ac mae disgwyl i fyfyrwyr gyflwyno gwaith i'w drafod yn feirniadol mewn modd deallus a chadarnhaol. Y bwriad cyffredinol yw rhannu barn ffurfiannol ac uniongyrchol ar waith myfyrwyr, a lledaenu gwybodaeth am arferion da a gwael yn eu mysg.

**Tiwtorialau Personol** yw cyfarfodydd rhwng tiwtor personol a myfyriwr neu grŵp o fyfyrwyr i adolygu cynnydd, cael adborth a phennu targedau ar gyfer eich datblygiad unigol chi yn y dyfodol.

Mae **Siaradwyr Gwadd** ac ymweliadau allanol yn ychwanegu at y ddarpariaeth drwy gyflwyno ymdeimlad o'r byd go iawn, neu'r byd y tu allan, i'r broses ddysgu ac addysgu. Gall teithiau maes neu siaradwyr allanol roi golwg werthfawr ar arferion gweithio cyfoes mewn gwahanol feysydd arbenigol a meysydd profiad, gan roi cip i'r myfyrwyr ar wahanol gyfleoedd gyrfaol sydd ar gael yn y sector.

**Ymrwymiad amser**

Fel myfyriwr *llawn amser*, yn gyffredinol bydd angen i chi astudio 40 awr yr wythnos, dros 30 wythnos. Bydd hyn yn cynnwys amser mewn dosbarthiadau, amser yn astudio ar eich pen eich hun ac amser yn gweithio ar aseiniadau. Bydd hyn yn eich galluogi i gwblhau 120 o gredydau'r flwyddyn a chwblhau Gradd Anrhydedd (sy'n gyfanswm o 360 credyd) mewn 3 blynedd. Yn aml, bydd gwyliau hanner tymor yn gyfle i gael rhywfaint o seibiant, darllen a chwblhau aseiniadau ac ymarferion.

Os byddwch yn astudio'n *rhan-amser* byddwch angen ymrwymo tua'r un faint o amser i bob modiwl ond byddwch yn cwblhau'r rhaglen dros gyfnod hwy. Bydd hyn yn eich galluogi i astudio ar gyflymder sy'n gweddu i'ch amgylchiadau.

**Dysgu uniongyrchol**

Gall dysgu uniongyrchol gynnwys bod yn yr ystafell ddosbarth a gweithgareddau dan arweiniad. Gellir cyflwyno hyn mewn amrywiaeth o ffyrdd, megis darlithoedd rhyngweithiol, gweithgareddau dysgu ar-lein, seminarau, gweithdai, siaradwy gwadd, ymarferion datrys problemau, adborth er mwyn datblygu (gan diwtor a gan gymheiriaid), gweithgareddau unigol a gweithgareddau grŵp, tasgau dan arweiniad (gwaith cartref, profiad gyda chyflogwr) a thiwtorialau cysylltiedig. Bydd deunyddiau astudiaethau achos, cyfnodolion, siaradwyr gwadd, sgiliau cyflogadwyedd a phrofiad gwaith yn ffurfio rhan bwysig o gyflwyno'r dysgu, sy'n cynrychioli cymhwyso'r themâu i sefyllfaoedd y byd go iawn.

Bydd gan bob cwrs adrannau am strategaethau addysgu a dysgu penodol ym manylion y Rhaglen a manyleb y modiwl. Edrychwch ar eich Llawlyfr Amgylchedd Dysgu Rhithwir.

**Astudio'n Annibynnol**

Yn ogystal â'r dysgu uniongyrchol, rhaid i fyfyrwyr astudio annibynnol ym mhob modiwl, tua 70% fel cyfran yr ymdrech sy'n ofynnol i ddysgu y tu allan i'r dysgu uniongyrchol ffurfiol. Rhaid i fyfyrwyr gynllunio a threfnu eu hamser yn effeithlon i ymrwymo i ddatblygu eu gwybodaeth a'u sgiliau personol ac i gwblhau asesiadau.

Bydd astudio annibynnol yn digwydd drwy astudio y tu allan i'r gweithgaredd dysgu uniongyrchol, yn cynnwys gwneud gwaith ymchwil ychwanegol, darllen, pennu tasgu astudio eu hunain a chwblhau gwaith asesu i ddatblygu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth eu hunain.

**Oriau dysgu**

Yn nodweddiadol bydd yn cymryd oddeutu 100 o oriau dysgu ar gyfer pob modiwl 10 credyd, gydag oddeutu 30% yn ddysgu wedi'i amserlennu a 70% yn astudio annibynnol. Gallai'r dysgu wedi'i amserlennu amrywio yn ôl modiwl, gan ddibynnu ar y dull cyflwyno, gofynion cynnwys y pwnc a'r astudio annibynnol ar sail datblygiad y dysgwr unigol (edrychwch ar adrannau Manyleb y Modiwl a'r Strategaeth Addysgu a Dysgu yn eich Llawlyfr Amgylchedd Dysgu Rhithwir). Y canllaw i fyfyrwyr yw cynllunio ar gyfer 1200 o oriau dysgu y flwyddyn (40 awr yr wythnos), gydag oddeutu 360 awr yn oriau dysgu wedi'u hamserlennu, yn cynnwys gwersi, lleoliad profiad gwaith, dysgu ar sail cyflogadwyedd a gweithgareddau dan arweiniad, a thua 840 o oriau o astudio annibynnol bob blwyddyn.

**Beth yw'r Cynllun Casglu a Throsglwyddo Credydau (CATS)?**

Mae CATS yn rhan o system a gydnabyddir yn genedlaethol sy'n clustnodi **pwyntiau credyd** i fodiwlau AU. **Credyd** yw un uned wedi'i seilio ar oriau dysgu tybiannol, ac felly mae modiwl yn cael graddfa gredyd yn gyfrannol i'r llwyth gwaith a ddisgwylir. Mae un credyd yn gyfwerth â 10 awr o ddysgu ac asesu – fel arfer mae gan fodiwl sengl gyfradd gredyd o 10, 15 neu 20 credyd. Mae blwyddyn lawn lwyddiannus o astudiaeth fel arfer yn gyfwerth â 120 credyd (sy'n gyfwerth â 1,200 awr o ddysgu ac asesu).

Un o fanteision modiwlau â chyfradd gredyd yw y gallwch, mewn achosion arbennig, **drosglwyddo** credydau rydych wedi'u hennill mewn un sefydliad i un arall. Dylech drafod â'ch Tiwtor Personol os ydych am newid eich SAU (Sefydliad Addysg Uwch) am unrhyw reswm.

Mantais arall CATS yw y gallwch grynhoi credydau i ddatblygu'ch cymhwyster. Er enghraifft, os ydych eisoes wedi cwblhau Gradd Sylfaen, gallwch wneud cais i ddilyn cwrs gradd anrhydedd atodol drwy astudio'n llawn amser am un flwyddyn neu'n aml trwy astudio'n rhan-amser am ddwy flynedd.

**Credyd am Ddysgu Blaenorol (APL)**
Mewn rhai achosion gallwch ofyn am gredydau am ddysgu blaenorol. I hyn fod yn bosibl mae'n rhaid i'r dysgu blaenorol fod wedi'i ardystio, er enghraifft os oes gennych HNC/HND neu Radd Sylfaen, mae’r broses yn eithaf syml a gall olygu eich bod yn astudio llai o fodiwlau ar gyfer eich dyfarniad. Os ydych yn credu bod hyn yn berthnasol i chi, trafodwch y mater â’ch Arweinydd Rhaglen/Tiwtor Personol.

**Credyd am Ddysgu drwy Brofiad Blaenorol (APEL)**
Mewn rhai achosion, gall credyd gael ei roi am ddysgu nad yw wedi’i ardystio, er enghraifft dysgu sy’n gysylltiedig â gwaith neu weithgareddau eraill. Fel arfer mae’r broses o ddyfarnu credydau yn yr achosion hyn yn llymach. Os ydych yn credu bod hyn yn berthnasol i chi, gofynnwch i’ch Cydlynydd Cwrs/Arweinydd Rhaglen sut i fynd ati i gyflwyno cais.

**Beth yw Lefelau?**
Mae lefel yn nodi pa mor anodd yw modiwl. Yn gyffredinol, mae modiwlau cyrsiau llawn amser yn Lefel 4 yn y flwyddyn gyntaf, yn Lefel 5 yn yr ail flwyddyn (lefel Gradd Sylfaen a HND), ac yn Lefel 6 yn y drydedd flwyddyn. Dyma’r lefel y mae’n rhaid ei chyrraedd i gael Gradd Anrhydedd.

**Beth am safonau?**
Mae ansawdd y cyrsiau AU yn bwysig iawn i GLlM ac mae monitro’n digwydd yn rheolaidd. Caiff cyrsiau eu monitro a’u gwerthuso i sicrhau bod safonau priodol yn cael eu cynnal. Dyma’ch sicrwydd bod ansawdd eich profiad academaidd yn GLlM yn cyfateb i safonau cenedlaethol. Mae hyn yn cynnwys defnyddio meddalwedd Turnitin i ganfod llên-ladrad; ail-farcio gwaith i sicrhau bod y marciau a ddyfernir yn deg a chael arholwyr allanol i adolygu gwaith a graddau i gadarnhau eu bod yn bodloni safonau cenedlaethol.

Ar gyfer holl gyrsiau GLlM ceir cyfarfodydd a byrddau rheolaidd i ymdrin â materion a gyfeirir atynt gan staff, gan fyfyrwyr a/neu gan gyrff eraill i adolygu cyrsiau, i argymell unrhyw newidiadau, i fonitro gweithrediad cyrsiau ac i adrodd ar unrhyw faterion eraill sy’n ymwneud â chyrsiau. Mae’r rhain yn gweithredu’n unol â rheoliadau ac yn atebol yn fewnol i’r Bwrdd Academaidd ac yn allanol i’r sefydliad partner ac i’r Corff Dyfarnu.

Ar gyfer eich rhaglen AU, mae'n ofynnol ethol **cynrychiolwyr myfyrwyr** yn flynyddol ar gyfer bob blwyddyn o’r cwrs. Mae gan y cynrychiolwyr myfyrwyr hawliau llawn i bleidleisio a disgwylir iddynt gynrychioli barn eu cyfoedion a chyflwyno barn myfyrwyr i'r Grŵp.

Mae'ch barn am y cwrs a’r modd mae’n cael ei redeg yn eithriadol o bwysig a gofynnir cwestiynau i chi am hyn yn ffurfiol drwy holiaduron a chyfarfodydd adolygu ac yn anffurfiol drwy fecanweithiau eraill drwy gydol y flwyddyn.

## 4 Ymgysylltiad Myfyrwyr a Chynrychiolwyr y Myfyrwyr
Anogir myfyrwyr i ymgysylltu â'r cwrs. Etholir cynrychiolwyr ar gyfer pob lefel o'r cwrs gan y myfyrywr a'r cynrychiolwyr myfyrwyr hyn fydd yn gyfrifol am gyflwyno barn y gweddill ar y ffordd mae'r cwrs yn cael ei ddarparu. Os byddwch yn teimlo na allwch drafod materion sy'n ymwneud â'r cwrs ag aelodau staff efallai mai'r cynrychiolydd myfyriwr yw'r person gorau i fynd ato/ati.

Bydd barn myfyrwyr am y cwrs hefyd yn cael ei chasglu unwaith y flwyddyn drwy werthusiad ar-lein ar ddiwedd y tymor cyntaf. Caiff myfyrwyr gyfle i roi sylwadau ar ansawdd y dysgu a'r addysgu, cynnwys y cwrs, modiwlau unigol, systemau tiwtorialau personol ac academaidd ac agweddau eraill

ar reolaeth y cwrs. Gofynnir i fyfyrwyr nodi lle'r ydym wedi diwallu eu hanghenion yn neilltuol o dda er mwyn i ni allu rhannu arfer da â meysydd eraill.

Mae Cyngor Llais y Myfyrwyr yn rhoi cyfle a lle i fyfyrwyr roi aborth am eu profiad ym maes addysg uwch a dylanwadau ar y penderfyniadau strategol. Lluniwyd Cyngor y Myfyrwyr er mwyn cael adborth gan fyfyrwyr o’r tri choleg a bydd y cyfarfodydd yn cael eu cadeirio gan Lywydd AU Undeb y Myfyrwyr.

Mae myfyrwyr hefyd yn cael cyfle i roi adborth mewn arolygon allanol megis yr Arolwg Cenedlaethol o Fyfyrwyr (NSS), a chaiff y wybodaeth ei bwydo i ffynonellau allanol fel DiscoverUni. Gan mai sefydliadau allanol sy'n dewis y sampl, bydd yn mynd i'ch cyfrif e-bost myfyriwr yn awtomatig.

Undeb y Myfyrwyr **Llywydd AU Undeb y Myfyrwyr:** Chi'r myfyrwyr sy'n ethol y Llywydd AU bob blwyddyn. Cynrychioli'ch barn chi yw rôl y Llywydd AU a sicrhau bod llais y myfyrwyr yn cael ei glywed ar lefel y coleg, ar lefel GLlM ac ar lefel genedlaethol fel rhan o Undeb y Myfyrwyr.

I gysylltu â'r Llywydd AU, neu i ddilyn yr hyn sy'n digwydd, ewch i wefan Undeb y Myfyrwyr: https://www.gllm.ac.uk/cy/student-life/student-union

Os oes gennych bryder neu rywbeth yr hoffech ei ganmol cysylltwch â'r Llywydd AU trwy neges e-bost:
HESUPresident@gllm.ac.uk

# 5. Rheolaeth Cyrsiau

## 5.1 Cyflwyniad

Mae’r cyrsiau'n cael eu rhedeg gan dîm sy’n cynnwys Arweinydd Rhaglen, Tiwtoriaid Personol a Thiwtoriaid Modiwl sy’n gyfrifol am bob modiwl sy’n cael ei ddysgu. Bydd enwau tîm eich cwrs a'u manylion cyswllt yn llawlyfr eich rhaglen/yr amgylchedd dysgu rhithwir.

### Arweinydd y Rhaglen

Arweinydd y Rhaglen sy'n gyfrifol am reolaeth gyffredinol eich rhaglen astudio. Mae'r rhain yn cynnwys:

- addysgu a gweinyddu'r rhaglen
- bod yn brif bwynt cyswllt rhwng y tîm addysgu a sefydliadau partneriaid AU/cyrff dyfarnu ac ar gyfer prosesau mewnol

### Arweinydd y Modiwl

Mae manyleb pob Modiwl sydd yn llawlyfr eich rhaglen/yr amgylchedd dysgu rhithwir yn nodi pwy yw Arweinydd y Modiwl a phwy yw’r tiwtoriaid eraill sy’n ymwneud â dysgu’r modiwl. Arweinyddion modiwlau sy’n gyfrifol am y cynllunio, y cynnwys, yr asesu a’r adnoddau sy’n ymwneud â modiwlau unigol y rhaglen astudio.

### Tiwtor y Modiwl

Tiwtoriaid modiwlau sy'n gyfrifol am roi cefnogaeth academaidd i fyfyrwyr ac olrhain eu cynnydd ar y modiwl.

**Tiwtor Personol**
Clustnodir Tiwtor Personol i bob myfyriwr AU, ac yn bennaf mae'r rôl yn un fugeiliol i gefnogi myfyrwyr a'u tywys drwy eu hastudiaethau. Gan ddefnyddio Porth y Dysgwr, bydd eich Tiwtor Personol yn eich tywys drwy'r broses Cynllun Datblygu Personol ac os oes gennych unrhyw bryderon, dyma'r aelod staff y dylech gysylltu ag ef gyntaf. Weithiau bydd Arweinydd y Rhaglen hefyd yn Diwtor Personol.

Os bydd problemau'n codi, ac os nad yw tiwtor y sesiwn ar gael, gwneir pob ymdrech i naill ai aildrefnu'r dosbarth neu i ddod o hyd i aelod staff arall i gyflwyno'r sesiwn. Os bydd sesiwn yn cael ei haildrefnu am unrhyw reswm, neu'n cael ei gohirio, fe ddylai'ch rhestr ddarllen a'ch aseiniadau sicrhau nad ydych yn gwastraffu gormod o amser.

## 5.2 Tiwtorialau Personol a Phennu Targedau Personol
Mae'r broses o Bennu Targedau Personol yn digwydd fel rhan o diwtorialau personol pob myfyriwr llawn amser a rhai myfyrwyr rhan-amser. Y nod yw adolygu graddau, a chymryd camau i wella'r graddau a gyflawnir gan fyfyrwyr ym mhob modiwl. Mae hon yn broses adfyfyriol sy'n cynnwys trafodaeth rhyngoch chi a thiwtoriaid y modiwlau. Yn ystod y broses hon byddwch yn cytuno ar raddau targed ar gyfer aseiniadau, ac yna'n adolygu'ch perfformiad. Bydd y broses yn digwydd ddwywaith y flwyddyn ac yn cael ei hadolygu gan y Tiwtor Personol.

Bydd eich cynnydd yn erbyn y targedau'n cael ei fonitro'n ofalus gan eich tiwtoriaid pwnc a'ch tiwtor personol.

Byddwch yn trafod ac yn cytuno ar dargedau newydd yn ystod adolygiadau pwnc/modiwl.

## 5.3 Tiwtorialau
Mae amserlenni llawn amser (a mwyafrif y rhai rhan-amser) yn cynnwys cyfnod tiwtorial fydd un ai'n cael ei dreulio mewn grŵp llawn, mewn grwpiau bach neu mewn cyfarfod un i un â'ch Tiwtor Personol fel y bo'n briodol. Mae'r system Diwtorialau Personol yn elfen bwysig o'r gefnogaeth a roddir i fyfyrwyr Grŵp Llandrillo Menai ac yn gyfle i drafod materion ac i ofyn am gyngor a help, yn enwedig os ydych yn teimlo o dan bwysau. Mae'r system yn un ddefnyddiol iawn o ran cefnogi myfyrwyr i gwblhau eu cyrsiau'n llwyddiannus. Credwn fod y system hon, ynghyd â maint bach ein dosbarthiadau, yn ffactorau pwysig o safbwynt cyflawniadau rhagorol dysgwyr GLlM.

# 6. Eich Cyfrifoldeb i Gynhyrchu Gwaith Gwreiddiol

Mae Deallusrwydd Artiffisial (AI) yn cyfeirio at systemau cyfrifiadurol sy'n gallu cyflawni tasgau sydd fel arfer yn gofyn am ddeallusrwydd dynol, fel ysgrifennu testunau, adnabod lleferydd, gwneud penderfyniadau, a chyfieithu iaith. Cyfeiriwch at y Canllawiau ar Uniondeb Academaidd i weld sut mae GLlM yn ymdrin â defnydd myfyrwyr o Ddeallusrwydd Artiffisial.

Ceir manylion eich dyletswyddau a'ch cyfrifoldebau fel myfyriwr AU yn eich Llawlyfr Rhaglen/ Amgylchedd Dysgu Rhithwir, sy'n cyfeirio at reoliadau eich cwrs. Fodd bynnag, mae hwn yn gyfle da i dynnu sylw at ba mor ddifrifol y mae GLlM (a'i bartneriaid AU) yn ystyried 'ymarfer annheg' sy'n broblem gynyddol mewn AU oherwydd y we fyd-eang a'r mynediad rhwydd i amrywiaeth eang o wybodaeth. Felly beth yw ymarfer annheg?

## 6.1 Ymarfer Annheg

Gellir diffinio ymarfer annheg fel gweithred sy'n golygu bod rhywrai'n cael mantais na chaniateir mohoni, iddynt eu hunain neu i rywun arall. Gall hyn arwain at farc uwch nag y byddent yn ei gael wrth ddibynnu'n unig ar eu gallu. Gall ymarfer annheg ddigwydd dan amodau arholiad neu mewn gwaith cwrs.

Ymchwilir i ddigwyddiadau amheus, ac os yw'r digwyddiadau hyn yn cael eu profi byddwch yn cael eich cosbi. Gall cosbau amrywio o rybudd llafar neu ysgrifenedig i ddiddymu marciau'r ymgeisydd a'i wahardd rhag astudio neu sefyll arholiadau pellach yn GLlM neu'r sefydliad partner. Gallwch apelio yn erbyn penderfyniad yr ymchwiliad i Ymarfer Annheg.

Eich cyfrifoldeb chi yw bod yn ymwybodol o'r ffeithiau hyn. Eich cyfrifoldeb chi hefyd yw cymryd camau rhesymol i rwystro eraill rhag gweld eich gwaith cyn iddo gael ei asesu, ac ar ôl hynny.

Cewch ragor o wybodaeth ar wefan Polisïau AU GLlM, sy'n cynnwys y polisi a'r weithdrefn sy'n berthnasol i gorff dyfarnu eich cymhwyster chi.

## 6.2 Llên-ladrad

Mae darn nodweddiadol o waith ymchwil yn golygu pwyso a mesur barn gwahanol awduron cydnabyddedig ar bwnc. Canlyniad yr ymarfer hwn yw casgliad gan y myfyriwr sydd i raddau'n cynnwys y syniadau a gyflwynwyd gan yr awduron.

Cyn belled â'ch bod yn nodi'r glir bod y syniadau a'r safbwyntiau a gyflwynwyd yn flaenorol yn eich gwaith yn perthyn i awduron eraill, nid ydych yn cyflawni llên-ladrad. Y dull a argymhellir i nodi syniadau a safbwyntiau o'r fath yw'r Dull Cyfeirnodi a ddisgwylir gan eich sefydliad partner AU/corff dyfarnu - dull cyfeirnodi Harvard fel arfer.

Dim ond un math o ymarfer annheg yw llên-ladrad. Beth yw llên-ladrad? Eglura H.S. Pyper (2000):

*'Yn syml iawn mae llên-ladrad yn lladrad. Mae'n golygu cymryd geiriau, syniadau a gwaith pobl eraill a rhoi'r argraff eu bod yn ffrwyth eich llafur chi eich hun. Nid oes rhaid i hyn gyfeirio at y gwaith cyfan, mae'n berthnasol hyd yn oed i un ymadrodd neu frawddeg. Gallant gael eu cymryd o waith awduron rydych wedi eu darllen neu o waith eich cyd-fyfyrwyr. Os gwneir hyn yn fwriadol er mwyn twyllo'r darllenydd mae'n amlwg bod rhaid wrth gosb lem.'*

Gall myfyrwyr gael eu cyhuddo o lên-ladrad drwy esgeulustod neu anwybodaeth. Er budd pawb, dylech gymryd pob gofal i osgoi llên-ladrad ac i osgoi rhoi unrhyw reswm i ddarllenydd eich gwaith eich amau.

Beth bynnag fo'r bwriad, mae'n amlwg na ddylai rhywun gael credyd am ddarn o waith nad yw'n gyfrifol amdano. Os nad yw'n amlwg i'r darllenydd beth sy'n waith gwreiddiol a beth sy'n deillio o ffynhonnell arall, sut y gall farcio'r gwaith yn deg? Mae'n anorfod y bydd marciau'n cael eu colli, hyd yn oed os nad oes dim difrifol iawn o'i le, oherwydd eich cyfrifoldeb chi fel awdur yw gwneud yn amlwg beth sy'n waith i chi a beth sy'n ddyfyniadau.

**Beth yw llên-ladrad personol?**

Ailddefnyddio, un ai'n rhannol neu'n llawn, waith a gyflwynwyd eisoes fel rhan o gais am gredyd academaidd, oni bai bod y gwaith wedi'i gyfeirnodi'n briodol neu fod y gwaith yn cael ei ailgyflwyno ar ôl cael ei fethu ac wedi cael ei awdurdodi gan dîm y rhaglen.

Ystyrir achosion o lên-ladrad personol yn arfer annheg a bydd yn arwain at gosb. Os ydych yn poeni am lên-ladrad personol trafodwch eich pryderon gyda'ch tiwtor.

- **Sut i osgoi cyhuddiad o lên-ladrad?**

Os nad ydych yn sicr o rywbeth gofynnwch i'ch Tiwtor Personol neu'ch Tiwtor Modiwl am gyngor. Serch hynny, dylai synnwyr cyffredin eich helpu i osgoi'r rhan fwyaf o broblemau.

Er mwyn osgoi llên-ladrad cofiwch y cynghorion canlynol:

- cymerwch amser i ddysgu sut mae cyfeirnodi'n gywir;
- wrth gymryd nodiadau o unrhyw ffynhonnell, cofiwch ysgrifennu'r holl fanylion perthnasol (awdur, teitl, cyhoeddwr, dyddiad ac ati) ar y pryd, er mwyn gallu cyfeirnodi'n gywir yn nes ymlaen;
- wrth gymryd nodiadau, gwahanwch eich syniadau chi oddi wrth syniadau pobl eraill, er enghraifft drwy ddefnyddio lliw gwahanol i nodi'r hyn mae eraill wedi'i ddweud, fel nad ydych yn eu defnyddio'n anfwriadol yn eich gwaith terfynol heb ychwanegu cyfeirnod;
- peidiwch ag ofni defnyddio eich geiriau eich hun; byddwch yn ddigon hyderus i fynegi eich syniadau eich hun yn eich geiriau eich hun;
- ceisiwch beidio â seilio eich aseiniad yn gyfan gwbl ar nodiadau o lyfrau a chylchgronau. Meddyliwch am eich safbwyntiau a'ch syniadau eich hun, a chyfeiriwch at waith pobl eraill i gefnogi neu wrthwynebu dadl.

- **Beth yw'r gweithdrefnau ar gyfer ymdrin â Llên-ladrad a beth yw'r cosbau a roddir?**

Ystyrir bod llên-ladrad ac arferion annheg eraill megis copïo gwaith myfyriwr arall yn ddifrifol iawn ac ymdrinnir â hwy yn unol â rheolau a rheoliadau'r partner/corff dyfarnu AU**.** Cewch ragor o wybodaeth ar wefan Polisïau AU GLlM, fydd yn dangos y polisi a'r weithdrefn sy'n berthnasol i'r corff dyfarnu sy'n gyfrifol am eich cymhwyster chi.

## 6.3 Turnitin

**Noder:** Mae GLlM a sefydliadau addysg uwch eraill yn defnyddio 'Turnitin', meddalwedd soffistigedig sy'n gallu canfod gwaith wedi'i lên-ladrata o amrywiaeth eang o ffynonellau gan gynnwys y rhyngrwyd a ffynonellau cyhoeddedig a heb eu cyhoeddi.

## 6.4 Deallusrwydd Artiffisial

Mae Deallusrwydd Artiffisial yn cyfeirio at systemau cyfrifiadurol sy'n medru cyflawni tasgau sy'n galw am ddeallusrwydd dynol yn arferol, fel ysgrifennu testun, cynhyrchu delweddau, adnabod llais, gwneud penderfyniadau a chyfieithu. Edrychwch ar y ddogfen Canllawiau Uniondeb Academaidd i weld dull GLlM o ymdrin â myfyrwyr yn defnyddio Deallustrwydd Artiffisial.

Mae GLlM yn annog defnyddio rhaglenni Deallusrwydd Artiffisial sy'n cynorthwyo myfyrwyr i ddysgu, a bydd yn cefnogi defnyddio hyn ble bo'n cael ei ddefnyddio mewn modd tryloyw a moesegol.

Golyga hyn y disgwylir i chi:

1. Ddefnyddio rhaglenni Deallusrwydd Artiffisial mewn modd cyfrifol a moesegol. Dim ond eich gwaith eich hun y dylech ei gyflwyno ar gyfer asesiadau. Rhaid i'r cynnyrch terfynol fod yn eich

geiriau eich hun, a heb ei gopïo neu ei aralleirio o ffynhonnell arall fel rhaglen Deallusrwydd Artiffisial.
2. Dylech gydnabod defnyddio rhaglenni Deallusrwydd Artiffisial os cawsant eu defnyddio wrth ddatblygu eich gwaith. Dylech nodi'n glir yn eich gwaith ysgrifenedig ble rydych chi wedi defnyddio rhaglenni Deallusrwydd Artiffisial, pa raglenni rydych chi wedi'u defnyddio a sut.
3. Deall pryd mae defnyddio Deallusrwydd Artiffisial yn amhriodol ac y gellid ei ystyried yn Ymarfer Annheg. Mae'n annerbyniol defnyddio rhaglen Deallusrwydd Artiffisial i wneud i gynnwys a gynhyrchwyd gan raglen o'r fath ymddangos fel eich gwaith ei hun a pheidio â chydnabod defnyddio rhaglenni Deallusrwydd Artiffisial pan gwasant eu defnyddio fel ffynhonnell gwybodaeth.

Bydd eich tiwtor yn defnyddio dulliau amrywiol i adnabod unrhyw Ymarfer Annheg posibl. Disgwylir i chi fedru trafod pynciau asesu ar lafar a dangos eich gwybodaeth a'ch dealltwriaeth o'r gwaith.

# 7 Atal Trafferthion

Gobeithio y cewch gyfnod pleserus a didrafferth yn astudio yn GLlM. Fodd bynnag, gwyddom o brofiad bod myfyrwyr unigol weithiau'n gallu wynebu problemau a all effeithio ar eu hastudiaethau os na chânt eu goresgyn yn fuan. Os oes gennych unrhyw broblemau, mae nifer o ffynonellau y gallwch droi atynt am gymorth (ceir manylion am y rhain yn Llawlyfr Cwrs eich Rhaglen); y neges allweddol yw peidiwch â bod ofn gofyn am help os ydych yn teimlo eich bod ei angen.

Dengys ymchwil bod myfyrwyr nad ydynt yn cwblhau eu hastudiaethau'n fwy tebygol o adael eu cwrs yn ystod yr wythnosau a'r misoedd cyntaf. Yr hiraf yr arhoswch ar gwrs, yna'r mwyaf tebygol yr ydych o lwyddo. Felly os yw pethau'n anodd yn ystod yr wythnosau cyntaf, daliwch ati ac os ydych angen help, yna gofynnwch amdano!

## 7.1 Rheoli Baich Gwaith a Materion Cysylltiedig

Cofiwch fod astudio ar lefel AU yn golygu baich gwaith trwm ac ymrwymiad amser. Ni ellir **osgoi** hyn, felly, mae'n rhaid i chi ddefnyddio **rheoli amser** i **gynllunio** a **threfnu** eich amser yn effeithlon. Bydd yn ffordd dda o baratoi ar gyfer y terfynau amser fydd yn eich wynebu mewn swyddi yn y dyfodol. Peidiwch â gweithio mwy nag sydd raid mewn swydd gyflogedig tra rydych yn y coleg rhag i hyn amharu ar eich astudiaethau. Gwnewch yn siŵr fod eich teulu yn ymwybodol o'r galwadau fydd arnoch fel myfyriwr AU.

**Problemau'n ymwneud â'r modiwl:** Dylai'r rhain gael eu codi'n gyntaf â Thiwtor y Modiwl. Efallai yr hoffech drafod y broblem â'ch Tiwtor Personol hefyd. Rhowch ystyriaeth hefyd i sefydlu grŵp cefnogi ymhlith eich cyd-fyfyrwyr; mae grwpiau o'r fath wedi bod yn effeithiol iawn yn y gorffennol.

**Problemau academaidd neu weinyddol cyffredinol:** Dylech drafod y rhain â'ch Tiwtor Personol. Gallwch hefyd fynd at Reolwr y Rhaglen, ac mae gan y staff Cefnogi Dysgu enw da am ddatrys problemau, e.e. drwy gynnig cymorth gyda rhifedd, llythrennedd a sgiliau astudio. Mae staff gweinyddol y gwahanol adrannau hefyd yn barod iawn i helpu gydag ymholiadau cyffredinol.

**Materion yn ymwneud â phroblemau personol:** Dylech drafod y rhain yn gyntaf â'ch Tiwtor Personol - cysylltwch ag ef neu hi yn syth os yw'r broblem yn amharu ar eich astudiaethau. Os ydynt yn faterion cyfrinachol, efallai y byddai'n well gennych gysylltu â'r Gwasanaethau i Ddysgwyr a'r tîm Lles sy'n darparu cymorth cyfrinachol a gwasanaeth cwnsela arbenigol; gallant hefyd gynghori ar faterion yn ymwneud â dyledion, cyllid, gofal plant a thrafnidiaeth. (Gwefan Cymorth i Fyfyrwyr)

**7.2 Amgylchiadau Lliniarol**

Gobeithiwn y bydd eich amser yn GLlM yn hapus ac yn gynhyrchiol, fodd bynnag mae'n bosibl y bydd salwch neu ddigwyddiadau annisgwyl yn effeithio ar eich astudiaethau. Cyfeiriwn at y rhain fel amgylchiadau lliniarol.

Mae amgylchiadau lliniarol yn anawsterau / problemau dros dro neu dymor byr sy'n effeithio arnoch chi. Er enghraifft: salwch corfforol neu feddyliol tymor byr, marwolaeth perthynas neu ffrind agos a phroblemau teuluol.

Rhaid i amseriad yr amgylchiadau fod yn berthnasol ac mae'n rhaid ei fod y tu hwnt i'ch rheolaeth. Nid yw mân salwch neu anhwylder, megis cur pen ac annwyd, rheoli amser yn wael ac amgylchiadau y gellid eu rhagweld a/neu y gellid eu hatal yn cael eu derbyn fel Amgylchiadau Lliniarol.

Dylech siarad â'ch Arweinydd Rhaglen neu Diwtor cyn gynted ag y byddwch yn dod yn ymwybodol bod gennych amgylchiadau lliniarol. Bydd eich Arweinydd Rhaglen neu Diwtor yn rhoi gwybod i chi am y broses amgylchiadau lliniarol ac yn eich cyfeirio at y ffurflen amgylchiadau lliniarol. Os yw'n briodol, gallant hefyd eich cyfeirio at gymorth ychwanegol, megis Sgiliau Astudio neu'r Gwasanaethau i Ddysgwyr.

Mae dau fath o amgylchiadau lliniarol y gallwch wneud cais amdanynt; cyflwyno gwaith yn hwyr a pherfformiad gwael. Mewn rhai amgylchiadau, efallai y gallwch wneud cais am gyfuniad o'r ddau.

**Cyflwyno gwaith yn hwyr:** Cyflwyno gwaith yn hwyr yw pan fyddwch angen estyniad i ddyddiad cyflwyno eich asesiad gwreiddiol ac o ganlyniad, rydych yn gofyn iddo gael ei farcio heb gosb cyflwyno'r gwaith yn hwyr.

**Perfformiad Gwael:** Ystyrir perfformiad gwael pan gyflwynwyd eich asesiad mewn pryd, ond y gallai amgylchiadau lliniarol fod wedi effeithio ar eich perfformiad. O ganlyniad, hoffech i hyn gael ei nodi a'i ystyried gan y Bwrdd Arholi fel nad ydych dan anfantais oherwydd eich amgylchiadau lliniarol.

Mae tystiolaeth ategol yn hanfodol i gefnogi eich cais gan ei fod yn galluogi'r panel amgylchiadau lliniarol i ddeall sut a phryd yr effeithiodd yr amgylchiadau arnoch chi. Os cyflwynir eich cais heb dystiolaeth efallai y caiff ei wrthod.

Cewch ragor o wybodaeth yn y safle Gwybodaeth am Amgylchiadau Lliniarol. I weld y polisi Amgylchiadau Lliniarol, ewch i: www.gllm.ac.uk/hepolicies. Rydym yn eich cynghori i fod yn ymwybodol o'r polisi hwn trwy gydol eich astudiaethau fel eich bod yn gwybod ar unwaith beth i'w wneud os bydd rhywbeth yn digwydd.

## 8 Llyfrau a Chylchgronau

Fel myfyriwr AU byddwch yn defnyddio'r llyfrgell a'r adnoddau ar-lein yn rheolaidd. Ar y lefel hon, mae'ch amser cyswllt â thiwtoriaid yn eithaf isel o'i gymharu â'r amser y bydd angen i chi ei ymroi i gwblhau'ch astudiaethau.

Yn ystod eich astudiaethau mae'n debygol iawn y bydd angen i chi ddefnyddio cylchgronau academaidd a phroffesiynol gan eu bod yn ffynonellau defnyddiol ar gyfer gwaith ymchwil a'u bod yn aml ar gael ar-lein (o'ch cartref). Mae adnoddau ar-lein (e.e. cylchgronau a phapurau newydd, e-lyfrau a ffynonellau data eraill) ar gael drwy Wasanaeth Adnoddau Llyfrgell y Grŵp.

Dylech brynu'r prif werslyfr ar gyfer pob modiwl unigol. Fodd bynnag, mae'n well i chi wirio pa deitl y dylech ei brynu â Thiwtor y Modiwl.

## 9 Eich llesiant yn y Coleg

Mae Grŵp Llandrillo Menai wedi ymrwymo i gefnogi lles dysgwyr trwy hyrwyddo a darparu ystod o gyfleoedd a gwasanaethau. Mae'ch cefnogi gyda'ch lles corfforol, emosiynol a chymdeithasol yn bwysig er mwyn sicrhau y gallwch fwynhau eich amser a llwyddo yn y coleg.

Mae cymorth ar gael i ddysgwyr a all fod yn profi anawsterau personol, anawsterau emosiynol a/neu drafferthion lles. Mae staff cymwys, gan gynnwys cwnselwyr, staff lles, ymarferwyr iechyd meddwl ac arweinwyr diogelu ar gael i ddarparu cymorth mewn cyfrinachedd i'ch helpu chi ar adegau o anhawster neu argyfwng personol.

Gall dysgwyr GLlM gael cymorth Iechyd Rhywiol, derbyn cynhyrchion mislif am ddim wedi'u gyrru i'w cartref a chymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau lles.

Gellir dod o hyd i wybodaeth i gefnogi eich lles ar wefan GLlM (dolen) trwy eich tiwtor personol neu drwy alw heibio'r tîm Gwasanaethau i Ddysgwyr ar gampws eich coleg.

Dolen https://www.gllm.ac.uk/student-life/student-support-hub/your-wellbeing-in-college

### 9.1 Cyfleusterau Eraill

Yn ogystal â'r cyfleusterau a'r gefnogaeth i fyfyrwyr mae GLlM yn cynnig cyfleusterau eraill sy'n agored i fyfyrwyr a'r cyhoedd. Fe welwch fanylion ar y wefan o dan 'Y Cyhoedd' ar gyfer trin gwallt a harddwch, bwytai, cyfleusterau chwaraeon a chyfleusterau cynadledda.

## 10 Gweithdai Sgiliau Academaidd a Sgiliau Astudio ar Moodle

Mae cymorth gyda sgiliau astudio ar gael i ddysgwyr AU ar sail un i un neu grwpiau bach drwy'r llyfrgelloedd a'r canolfannau astudio, un ai wyneb yn wyneb neu ar-lein drwy adran Cymorth Sgiliau Astudio a TG GLlM. Dyma'r pynciau:

- Rheoli amser
- Gwneud nodiadau
- Ysgrifennu traethodau
- Ysgrifennu adroddiadau
- Ysgrifennu adfyfyriol
- Cyfeirnodi a llên-ladrad
- Adnoddau ar-lein
- Chwilio ar y we
- Adnoddau electronig
- Meddwl yn feirniadol
- Sgiliau cyflwyno
- Prawf ddarllen
- Technegau arholiadau

## 11 Myfyrwyr ag Anableddau neu Anghenion Dysgu Ychwanegol

Mae Grŵp Llandrillo Menai wedi ymrwymo i ddarparu ystod lawn o addysg bellach ac addysg uwch a hyfforddiant hygyrch yn y gymuned y mae'n ei gwasanaethu. Trwy ei ddarpariaethau dysgu cyffredinol ac ychwanegol, ei nod yw sicrhau bod pob dysgwr cofrestredig yn gallu gwneud cynnydd yn unol â'u dyheadau a'u galluoedd yn y cyrsiau a gynigir. Mae ein Tîm Cymorth a Chynhwysiant Anghenion Dysgu Ychwanegol yn darparu cymorth i fyfyrwyr. Rydym hefyd yn ceisio sicrhau bod ein holl fyfyrwyr yn gallu cymryd rhan ym mhob agwedd ar fywyd AU, yn academaidd ac yn gymdeithasol, a bod modd gwneud addasiadau rhesymol.

Mae'n bwysig iawn eich bod yn cysylltu â thîm Cymorth Dysgu'ch campws cyn gynted â phosibl i drafod ac ystyried eich anghenion unigol. Os oes gennych chi anabledd neu gyflwr iechyd tymor hir sy’n effeithio ar eich gallu i astudio, medrwn drafod cymorth academaidd ac addasiadau. Gall hyn gynnwys:

- cyflwr sbectrwm awtistig
- nam ar y golwg
- nam ar y clyw
- salwch neu gyflwr iechyd tymor hir, fel diabetes neu syndrom lludded cronig
- cyflwr iechyd meddwl
- anhawster dysgu penodol fel dyslecsia, dyspracsia neu anhwylder diffyg canolbwyntio a gorfywiogrwydd (ADHD)
- anawsterau corfforol/symudedd

Bydd y ddogfen Myfyrwyr ag Anableddau a/neu Anghenion Dysgu Ychwanegol yn rhoi gwybodaeth ychwanegol i chi ynghylch Dogfennau Ategol y bydd Grŵp Llandrillo Menai eu hangen. Gallech fod yn gymwys i dderbyn Lwfans i Fyfyrwyr Anabl (DSA) yn dilyn asesu eich anabledd/anghenion dysgu penodol. Cewch ragor o wybodaeth yma. Os ydych yn credu eich bod yn gymwys ar gyfer y Lwfans bydd angen i chi gwblhau ffurflen gais. Os byddwch yn gymwys, gofynnir i chi fynd i asesiad o anghenion er mwyn gallu dynodi unrhyw offer arbenigol a chefnogaeth y byddwch eu hangen ar eich cwrs. Mae'r Ffurflen Gais ar gyfer Lwfans i Fyfyrwyr Anabl i'w chael ar-lein yn www.cyllidmyfyrwyrcymru.co.uk.

Mae'n bwysig eich bod yn cwblhau'r Ffurflen Gais cyn dechrau ar eich astudiaethau er mwyn sicrhau bod y cymorth rydych ei angen wedi cael ei asesu a'i gytuno.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau pellach, neu os hoffech drafod eich anghenion ymhellach, cysylltwch â'r tîm Cymorth Dysgu ar eich campws neu anfonwch neges e-bost i aln@gllm.ac.uk.

## 12 Cynllun Datblygu Personol

Fel myfyriwr AU, mae'n bwysig eich bod yn ystyried creu Cynllun Datblygu Personol a all fod yn gyfrwng ar gyfer cofnodi'ch gwybodaeth, eich sgiliau a'ch cyflawniadau eraill yn ystod eich astudiaethau. Bydd y broses o gymorth i chi osod targedau ac yn ffynhonnell ar gyfer darparu deunydd ar gyfer eich datganiadau personol neu CV, i baratoi ar gyfer eich gyrfa/cyflogaeth. Gall hyn fod yn rhan o'ch modiwlau dysgu seiliedig ar waith a thiwtorialau personol gyda thargedau'n cael eu cofnodi ar Borth y Dysgwr.

Cofiwch fod cynllunio gyrfaol yn broses barhaus (ar gyfer israddedigion ac uwchraddedigion). Ein cyngor i chi yw defnyddio cynrychiolwyr Gyrfa Cymru o ddechrau'r cwrs a pheidio â gadael popeth tan y funud olaf.

## 13 Cymorth gyda Gyrfa a Chyflogadwyedd

Ein colegau yw'r lle delfrydol i astudio'r sgiliau rydych eu hangen i fod yn llwyddiannus yn y dyfodol a dod o hyd i swydd mewn ardal yr ydych wrth eich bodd â hi. Ewch i'r dudalen dod o hyd i yrfa ar y wefan i wneud eich ymchwil cychwynnol.

### 13.1 Dyfodol Myfyrwyr

Mae cymorth ar gael i gefnogi myfyrwyr gyda'u gyrfa ac amrywiaeth o sgiliau cyflogadwyedd trwy'r **Gwasanaeth Dyfodol Myfyrwyr ac Asiantaeth Alwedigaethol (CamVa).** Mae'n amrywio o dudalen hunan-astudio ar Moodle i sesiynau unigol, gan gynnwys cyngor ar gael mwy o brofiad gwaith gwirfoddol y tu allan i weithgaredd arferol eich cwrs. Efallai y bydd cyllid ar gael gan Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru i gefnogi myfyrwyr o grwpiau heb gynrychiolaeth dda tuag adnoddau ac ariannu gweithgareddau profiad gwaith gyda chyflogwyr. I gael rhagor o wybodaeth am y gwasanaeth Dyfodol Myfyrwyr cysylltwch â Dyfodol Myfyrwyr: dyfodolmyfyrwyr@gllm.ac.uk

### 13.2 CamVA (Asiantaeth Alwedigaethol)

Mae yna hefyd adran CamVa ar Google Classroom sy'n cynnig cynghorion a fideos gwych ynghylch llunio CV, sgiliau cyfweliad a chyhoeddiadau sy'n tynnu sylw myfyrwyr at adnoddau newydd sydd ar gael. Ewch i Google Classroom CAMVA neu am ragor o wybodaeth anfonwch neges e-bost i: camva@gllm.ac.uk

I gael cyngor personol ynghylch gyrfaoedd, cysylltwch â'n Swyddog Gyrfaoedd, Gethin Jones, trwy neges e-bost: dyfodolmyfyrwyr@gllm.ac.uk (jones44g@gllm.ac.uk)

Cewch gyngor annibynnol am yrfaoedd ac adnoddau defnyddiol yn www.gyrfacymru.com

### 13.3 Mentergarwch

A oes gennych chi syniad busnes neu a ydych chi'n meddwl tybed a fyddai dechrau eich busnes eich hun yn llwybr gyrfa realistig ar gyfer y dyfodol? Gall cymryd y camau cyntaf tuag at redeg eich busnes eich hun ymddangos yn her aruthrol. Rydym yma i'ch helpu o'r dechrau un i ddatblygu'ch syniad yn fusnes llwyddiannus.

Fel dysgwr AU yng Ngrŵp Llandrillo Menai gallwch gael mynediad i bob math o gymorth gan gynnwys:

- Cymorth Menter Unigol
- Ymgynghorwyr Busnes
- Help i ddod o hyd i arian/bwrsariaeth/cymorth i raddedigion tuag at ddechrau busnes
- Digwyddiadau i'ch helpu i ddysgu am yr hyn sydd ei angen i sefydlu a rhedeg busnes
- Dosbarthiadau meistr a gweithdai i'ch helpu i ddatblygu eich syniad
- Cyfleoedd i roi prawf ar gyfleoedd masnachu
- Cystadleuaeth Menter y Flwyddyn

I fynegi diddordeb neu i gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â camva@gllm.ac.uk neu ymuno â’n tudalen Facebook i gael y wybodaeth ddiweddaraf am gystadlaethau, digwyddiadau a chyfleoedd rhwydweithio.

## 14 Cyfrifoldebau Ffioedd

Codir ffioedd dysgu blynyddol ar ddysgwyr llawn amser yn unol â Chynllun Ffioedd a Mynediad AU a gymeradwywyd gan CCAUC ar gyfer cyrsiau a gyllidir yn uniongyrchol, neu a osodir gan sefydliadau dyfarnu ar gyfer rhaglenni breiniol. Ceir copi o'r Cynllun Ffioedd a Mynediad ar y wefan ar y dudalen Polisïau AU.

Rhaid i’r holl fyfyrwyr Addysg Uwch sy'n derbyn cymorth ariannol gan Gyllid Myfyrwyr Cymru/Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr ddarparu copi o'u hysbysiad ariannol wrth gofrestru. Dylai dysgwyr wneud cais am gyllid mewn da bryd ar gyfer pob blwyddyn.

Pennir ffioedd rhan-amser yn flynyddol ac ni chânt eu cyfrifo ar sail pro-rata i Ffioedd Addysg Uwch amser llawn. Mae ffioedd dysgwyr yn ddyledus yn unol â'r un amserlen a nodir yn y tabl uchod.

Cyfrifoldeb y dysgwr yw gwneud yn siŵr ei fod yn cael ei dynnu oddi ar y cwrs a rhoi gwybod i Gyllid Myfyrwyr Cymru. Gan fod y ffi a godir yn dibynnu ar ddyddiad olaf presenoldeb y dysgwr, dylid rhoi sylw arbennig i'r dyddiad gadael. Ni fydd gan ddysgwyr sydd wedi derbyn benthyciad ffioedd dysgu hawl i dderbyn ad-daliad gan y Grŵp. Bydd y Grŵp yn rhoi gwybod i Gyllid Myfyrwyr Cymru/Y Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr a bydd y Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr yn newid benthyciad ffi dysgu'r myfyriwr i gyd-fynd â hynny.

### 14.1 Ad-daliadau/Newidiadau i Ffioedd oherwydd Penderfyniad i Adael

Mae'r Grŵp yn cydnabod y gall dysgwyr addysg uwch llawn amser benderfynu peidio â pharhau â'u hastudiaethau am nifer o resymau nad oeddent o bosibl wedi dod i'r amlwg pan oeddent yn cofrestru. O ganlyniad, bydd gan ddysgwyr sy'n gadael o fewn PYTHEFNOS i ddechrau eu cwrs hawl i dderbyn ad-daliad llawn os nad oes unrhyw dystiolaeth o dwyll neu weithrediadau anghyfreithlon neu o unrhyw ddyledion heb eu talu i'r Grŵp.

Os bydd y myfyriwr yn gadael ar ôl y pythefnos cyntaf, bydd ei gyfrifoldeb i dalu'r ffioedd yn dibynnu ar ei statws o ran ffioedd (Cartref, UE neu Ryngwladol), y dyddiad gadael a'r sefydliad y mae'r cwrs yn gysylltiedig ag ef.  Dyma ganllaw i ddangos lleiafswm yr atebolrwydd.

| Dyddiad gadael | Canran y ffi sy'n ddyledus |
|---|---|
| Cyn diwedd Tymor 1 | 25% |
| Yn ystod Tymor 2 | 50% |
| Yn ystod Tymor 3 | 100% |

### 14.2 Ffioedd Dyledus

Ni fydd dysgwyr Addysg Uwch sydd heb dalu eu ffioedd yn cael symud ymlaen i gam nesaf eu cwrs na dod i seremonïau graddio tan fydd y dyledion i gyd wedi'u talu.

Gellir talu’r ffioedd gydag:

- Arian parod

- Cerdyn debyd neu gerdyn credyd
- Anfoneb gyda llythyr awdurdodi gan gyflogwr
- Cyllid Myfyrwyr Cymru/Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr yn achos cyrsiau AU

### 14.3 Bwrsariaethau

Er mwyn annog a chynorthwyo dilyniant, telir bwrsari o £1,000 i unrhyw ddysgwr a fydd yn symud ymlaen yn syth o ddarpariaeth Addysg Bellach lefel 3 yn y Grŵp i gwrs AU llawn amser i israddedigion ac yn cwblhau astudio'r flwyddyn gyntaf.

Mae bwrsariaethau eraill ar gael i gefnogi myfyrwyr yn ystod pob blwyddyn o astudio llawn amser. Cynigir bwrsari am astudio cyfran o'r rhaglen drwy gyfrwng y Gymraeg, ynghyd â'r bwrsarïau a delir i fyfyrwyr sy'n byw yn Ardaloedd Amddifadus Cymru ac i'r rhai sydd wedi cael profiad o dderbyn gofal (Plant sy'n Derbyn Gofal). Byddant ar gael yn flynyddol ar sail £300 y flwyddyn i ddysgwyr llawn amser.

Os hoffech gael rhagor o wybodaeth ewch i'r dudalen cymorth ariannol yma.

Mae'r polisi Ffioedd ar gael yn llawn ar wefan y Grŵp, dan Polisïau.

## 15. Dwyieithrwydd

Mae gan Grŵp Llandrillo Menai bolisi o gynnig asesiadau dwyieithog i bob myfyriwr yn unol â Safonau'r Gymraeg. Mae gan bob myfyriwr yr hawl i gyflwyno asesiadau drwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg, beth bynnag fo iaith addysgu'r cwrs (cyrsiau iaith yn eithriedig).

Yn eu cyfweliad cychwynnol ac yn ystod y broses gynefino, eglurir i fyfyrwyr bod modd iddynt gael eu hasesu drwy gyfrwng y Gymraeg. Byddai'n ddefnyddiol pe gallai myfyrwyr sy'n bwriadu cyflwyno gwaith yn y Gymraeg, er bod y cwrs neu'r modiwl yn cael ei gyflwyno yn Saesneg, hysbysu tiwtor y cwrs ar ddechrau'r flwyddyn academaidd, neu wrth ddechrau ar uned neu fodiwl newydd yn ystod y flwyddyn academaidd.

Mewn amgylchiadau lle mae cyfrwng y cwrs neu'r modiwl yn Saesneg, ac nid yw Cymraeg llafar ac ysgrifenedig tiwtor y modiwl nac unrhyw aelod arall o'r staff a ddynodwyd i asesu'r gwaith yn ddigon da, bydd dewisiadau eraill yn cael eu trafod â'r myfyriwr, h.y. bydd tiwtor y cwrs yn ceisio canfod cydweithiwr priodol yn y Grŵp i asesu'r gwaith yn Gymraeg, ac yn darparu canllawiau asesu fel y bo angen. Yna bydd yr asesydd cyfrwng Cymraeg a ddynodwyd yn asesu'r gwaith ysgrifenedig. Bydd darlithydd y modiwl yn cwrdd â'r asesydd cyfrwng Cymraeg er mwyn cael trafodaeth broffesiynol ynghylch graddio'r asesiad drafft.

Os oes angen, bydd gwaith y myfyriwr yn cael ei gyfieithu er mwyn hwyluso'r drafodaeth hon. Bydd y drafodaeth yn cael ei dogfennu neu'i chofnodi'n llawn. Yna bydd darlithydd y modiwl yn dod i benderfyniad terfynol cychwynnol ar y radd i'w dyfarnu. Fe all y broses fod yn berthnasol hefyd i'r ail farciwr.

Os **na all tiwtor y cwrs ganfod asesydd cyfrwng Cymraeg**, bydd gwaith y myfyriwr yn cael ei anfon i'w gyfieithu. Gofynnir i'r cyfieithydd roi sylwadau ar safon llythrennedd Cymraeg y gwaith a asesir er mwyn cynorthwyo darlithydd y modiwl mewn perthynas ag unrhyw ofynion graddio sy'n ymwneud â llythrennedd. Gwerthfawrogir, fodd bynnag, bod cyfieithu'n golygu ymyrraeth sylweddol, ac o'r herwydd mae iddo risg uwch na'r dull a fabwysiedir uchod oherwydd y cyfyngiadau ar yr amser cyfieithu.

Mae bwrsariaeth y Gymraeg gwerth £300 ar gael bob blwyddyn academaidd i fyfyrwyr ar gyrsiau AU amser llawn. Gall myfyrwyr wneud cais am y fwrsariaeth yn nhymor tri ar ôl bod yn gweithio trwy gyfrwng y Gymraeg yn y dosbarth yn ystod eu cwrs. Gallai hyn fod gyda'u cyfoedion a staff sy'n siarad Cymraeg, gyda thystiolaeth o ddau ddarn o waith dosbarth megis nodiadau dosbarth neu ymchwil, cyflwyniadau a gwaith ysgrifenedig. Byddai'r tiwtor personol yn eu dilysu.

## 16 Y Coleg Cymraeg Cenedlaethol

Nod y Coleg Cymraeg Cenedlaethol yw cydweithio â phrifysgolion, colegau Addysg Bellach a darparwyr Dysgu Seiliedig ar Waith ledled Cymru er mwyn cynnig mwy o gyfleoedd i fyfyrwyr astudio drwy gyfrwng y Gymraeg a defnyddio'r Gymraeg yn gymdeithasol.

Mae'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol yn cynnig ysgoloriaethau i fyfyrwyr israddedig sy'n dymuno dilyn cyrsiau gradd mewn prifysgolion ledled Cymru, gan astudio'n gyfan gwbl neu'n rhannol drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae chwilotwr cwrs ar wefan y Coleg Cymraeg Cenedlaethol sy'n caniatáu i fyfyrwyr chwilio drwy'r cyrsiau sy'n gymwys i ennill ysgoloriaeth. Mae rhai o raglenni GLlM ar y rhestr ac yn gymwys ar gyfer Ysgoloriaeth Cymhelliant y Coleg Cymraeg Cenedlaethol. Mae'r Ysgoloriaeth Cymhelliant werth £1,500 dros gyfnod o 3 blynedd am astudio 33% o'ch cwrs drwy gyfrwng y Gymraeg. Cewch ragor o wybodaeth ynglŷn â'r Ysgoloriaeth yma.

Mae dau Swyddog Cangen y Coleg Cymraeg Cenedlaethol yn gweithio yn GLlM. Cewch ragor o fanylion am y swyddogion cangen a'u gwaith yma.

## 17 Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant yng Ngrŵp Llandrillo Menai

Mae Grŵp Llandrillo Menai wedi ymrwymo i feithrin amgylchedd o gydraddoldeb a chynhwysiant. Trwy ddull amlochrog sy'n cwmpasu polisïau, cysylltiadau, strwythurau cymorth a chyfleoedd ymgysylltu, mae GLlM yn sicrhau bod pob myfyriwr yn teimlo bod ganddo'r grym i ffynnu a chyfrannu at gymuned academaidd amrywiol.

**Polisïau, Gweithdrefnau a Chynlluniau Gweithredu:**
Yn GLlM, rydym o ddifrif ynghylch ecwiti. Mae gennym bolisïau, gweithdrefnau a chynlluniau gweithredu ar waith i sicrhau, fel sefydliad, ein bod yn gwella ein harlwy cynhwysol i staff a myfyrwyr yn barhaus. Boed yn dderbyniadau, addysgu, gwasanaethau cymorth neu ymgysylltu â'r gymuned, rydym wedi ymrwymo i sicrhau chwarae teg i bawb.

**Arweinwyr mewn Amrywiaeth:**

Cafodd Grŵp Llandrillo Menai ei gydnabod gydag achrediad Arweinwyr mewn Amrywiaeth ym mis Awst 2023. Beth mae hynny'n ei olygu i chi? Mae'n golygu y byddwch chi'n dysgu ac yn tyfu mewn amgylchedd lle mae gwahanol safbwyntiau nid yn unig yn cael eu croesawu, ond yn cael eu dathlu.

**Ymrwymiad i Wrth-hiliaeth:**
Fel sefydliad, nid yw GLlM yn peidio â bod yn hiliol yn unig; rydym wedi ymrwymo i fod yn wrth-hiliol. Cefnogir hyn trwy ein cysylltiad â'r Grŵp Arweinyddiaeth Pobl Ddu (BLG). Trwy'r cysylltiad hwn rydym wedi ymrwymo i fynd ati i herio hiliaeth, cefnogi buddiannau'r holl staff a myfyrwyr ac i gyflwyno cwricwlwm cynhwysol ac amrywiol i bob myfyriwr.

**Cefnogaeth Angerddol i Nodweddion Gwarchodedig:**
Yma yn GLlM, rydym yn frwd dros gefnogi'r naw nodwedd warchodedig, fel yr amlinellir yn Neddf Cydraddoldeb 2010. Credwn fod pawb yn haeddu cael eu trin â pharch ac urddas, a sicrhau bod hwn yn addewid a wnawn i chi.

**Y Tîm Cydraddoldeb a Chyfleoedd Ymgysylltu:**
Yng Ngrŵp Llandrillo Menai, mae gennym ni dîm Cydraddoldeb, a gyflogir i gefnogi staff a dysgwyr ac i sicrhau tegwch a thriniaeth gydradd i bawb. Trwy gydol eich amser yn y coleg, cewch eich gwahodd i rannu eich barn ac i ymgysylltu â gweithgareddau ac ymgynghoriadau polisi trwy arolygon, grwpiau ffocws ac ystod o weithgareddau allgyrsiol. Manteisiwch ar y cyfleoedd hyn, os gwelwch yn dda. Mae eich barn yn cael ei gwerthfawrogi a bydd yn helpu i siapio GLlM i fod yn lle hyd yn oed yn fwy cynhwysol a theg i bawb.

**Gwefan Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant a datblygu parhaus:**
Mae datblygu'r wefan Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant yn barhaus yn cynnig cyfle amhrisiadwy i bob dysgwr gael y wybodaeth ddiweddaraf am y datblygiadau a'r cyfleoedd ymgysylltu. Trwy'r platfform hwn, rydym nid yn unig yn hyrwyddo ein llwyddiannau yn y maes hwn ond hefyd yn annog cyfranogiad gweithredol yn ein taith tuag at ddyfodol mwy cynhwysol.

Yn GLlM, nid cysyniad yn unig yw cydraddoldeb - mae'n rhan annatod o bopeth a wnawn. Rydym yn gyffrous i groesawu myfyrwyr AU newydd i'n cymuned amrywiol a chynhwysol!